## SEFYLLFA BYD NATUR SIR GAERFYRDDIN - CACWN

**Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – Adran 7 – Rhestrau bioamrywiaeth a'r ddyletswydd i gymryd camau i gynnal a gwella bioamrywiaeth**. Mae'r rhywogaethau sydd wedi'u rhestru yn y tabl hwn wedi'u cydnabod gan Lywodraeth Cymru fel rhan o restr o rywogaethau a mathau o gynefinoedd a geir yng Nghymru. Y mae'n ystyried bod y rhain o bwysigrwydd allweddol i gynnal a gwella bioamrywiaeth yn y wlad hon. Mae'r rhestr (rhestr A7) yn cael ei hadolygu gan LlC a Chyfoeth Naturiol Cymru ar hyn o bryd.


Mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus (ee, LlC, cynghorau) gymryd camau rhesymol i gynnal a gwella'r rhywogaethau a'r mathau o gynefinoedd sydd wedi'u cynnwys yn Adran 7, ac annog eraill i gymryd camau o'r fath. Drwy ddiogelu'r rhywogaethau a'r cynefinoedd hyn, gwella'r rheolaeth arnynt a chodi ymwybyddiaeth amdanynt, gobeithir y gellir cynnal amgylchedd natur gwydn yng Nghymru i'r dyfodol.

Y rhywogaethau Adran 7 yw'r rhywogaethau y mae Partneriaeth Natur Sir Gâr yn ystyried bod angen rhoi'r flaenoriaeth i weithredu yn eu cylch, ond mae rhywogaethau eraill wedi'u nodi ar gyfer gweithredu lleol, lle ceir ychydig o gofnodion, neu lle bo gan Sir Gaerfyrddin boblogaethau lle gellir helpu i warchod neu wella'r rhywogaeth drwy gymryd camau penodol.

Mae **cynefinoedd cysylltiedig** yn cyfeirio at y cynefinoedd Adran 7 perthnasol y rhoddir blaenoriaeth iddynt yng Nghymru.

| Rhywogaethau | Trosolwg o Sir Gaerfyrddin | Camau â blaenoriaeth a nodwyd yn Sir Gaerfyrddin |
|---|---|---|
| *Bombus humilis*<br>cardwenynen lwydfrown<br><br>© BBCT | • **Cynefin cysylltiedig:** Llac twyni, twyni agored, glaswelltir twyni, glaswelltir arfordirol, a gweundir arfordirol.<br>• **Statws:** Y DU: heb ei rhestru (yn disgwyl adolygiad) IUCN: Pryder Lleiaf.<br>• Rhywogaeth sydd wedi'i gwasgaru'n bennaf yn ne'r DU, ond yn fwy cyffredin yn lleol yng nghynefinoedd arfordir De Cymru, fel Twyni Tywod Pen-bre a Gwarchodfa Natur Leol Morfa Berwig. Cafwyd y cofnod diweddaraf a ddilyswyd ym Mharc Gwledig Pen-bre yn 2023. Ceir nifer o gofnodion mewndirol hefyd ar draws y sir (er enghraifft yng Nghwmgwili), ac mae'n bosib bod poblogaethau wedi'u gwasgaru'n fwy eang ar draws iseldir Sir Gaerfyrddin.<br>• **Tueddiadau:** Yn prinhau'n genedlaethol, ond yn gyffredin yn lleol lle mae eu cynefin dal i fodoli.<br>• **Bygythiadau:** dyma ffactorau allweddol sy'n gysylltiedig â'r gostyngiad mewn cacwn:<br>• Colli cynefinoedd llawn blodau, yn enwedig dolydd a phorfeydd blodau gwyllt.<br>• Newid yn yr Hinsawdd<br>• Plaladdwyr<br>• Clefydau<br>• Ynysu poblogaethau'n arwain at fewnfridio.<br>• Cystadleuaeth â gwenyn | • Mae angen arolygon rhywogaeth wedi'u targedu ledled Sir Gaerfyrddin, i ganfod beth yw gwasgariad y rhywogaeth hon. Mae'n rhywogaeth anodd ei hadnabod, felly gallai fod wedi'i thangofnodi yn y sir. Bydd angen i wirfoddolwyr/syrfewyr dderbyn hyfforddiant adnabod penodol.<br>• Wedi'i chynnwys fel rhywogaeth darged ym mhrosiect Cysylltu Arfordir Sir Gaerfyrddin yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cawcn a ddechreuwyd ym mis Mai 2023.<br>• Ceir cyngor yma ar reoli cynefinoedd ar gyfer *Bombus humilis.* |
| *Bombus ruderarius*<br>cardwenynen goesgoch<br><br>© BBCT | • **Cynefin cysylltiedig:** Glaswelltir/gweundir yr iseldir/arfordir sy'n llawn blodau<br>• **Statws**: Y DU: Heb ei rhestru (yn disgwyl adolygiad) IUCN: Pryder lleiaf.<br>• Cafwyd y cofnod diweddaraf o'r rhywogaeth hon yn 2015 yn Nhwyni Tywod Talacharn. Ni chafwyd unrhyw gofnodion eraill ar ôl 2010.<br>• **Tueddiadau:** Yn prinhau ar draws y DU. Nid ydynt bellach ond i'w cael mewn llond llaw o safleoedd yn ne a dwyrain Cymru.<br>• **Bygythiadau:** dyma ffactorau allweddol sy'n gysylltiedig â'r gostyngiad mewn cacwn:<br>• Colli cynefinoedd llawn blodau, yn enwedig dolydd a phorfeydd blodau gwyllt.<br>• Newid yn yr Hinsawdd<br>• Plaladdwyr<br>• Clefydau<br>• Ynysu poblogaethau'n arwain at fewnfridio.<br>• Cystadleuaeth â gwenyn | • Mae angen arolygon arbenigol i dargedu safleoedd lle gwyddys bod rhywogaethau i'w cael yn y gorffennol, a chynefinoedd eraill a allai fod yn addas. Mae'n rhywogaeth anodd ei hadnabod, felly gallai fod wedi'i thangofnodi yn y sir. Mae angen hyfforddiant penodol ar adnabod rhywogaethau.<br>• Ceir cyngor yma ar reoli cynefinoedd ar gyfer *Bombus ruderatus* tud 31.<br>• Wedi'i chynnwys fel rhywogaeth darged ym mhrosiect Cysylltu Arfordir Sir Gaerfyrddin yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn a ddechreuwyd ym mis Mai 2023. |
| cardwenynen y mwsogl<br>*Bombus muscorum* | • **Cynefin cysylltiedig:** Glaswelltir a gweundir yr iseldir/arfordir sy'n llawn blodau; yr arfordir, dyffrynnoedd afon a ffeniau. | • Mae angen arolygon arbenigol i dargedu safleoedd lle gwyddys bod rhywogaethau i'w cael yn y gorffennol, a chynefinoedd eraill a allai fod yn |

| Rhywogaethau | Trosolwg o Sir Gaerfyrddin | Camau â blaenoriaeth a nodwyd yn Sir Gaerfyrddin |
|---|---|---|
| <br>© Nick Withers | Rhywogaeth sydd i'w chael tua'r gogledd yn bennaf, sy'n dangos ei bod yn ffafrio safleoedd nad ydynt yn tueddu i sychu. Yn aml yn defnyddio mwsogl fel deunydd i greu nyth ar laswelltir yr iseldir sy'n llawn blodau. Mae'r rhan fwyaf o gofnodion y DU gan amlaf mewn ardaloedd arfordirol, er bod rhai cofnodion i'w cael ymhellach i mewn i'r tir, fel arfer mewn dyffrynnoedd yn yr Alban lle mae'r niferoedd yn parhau i fod yn fwy helaeth.<br>• **Statws:** Y DU: Heb ei rhestru (yn disgwyl adolygiad) IUCN: Bregus<br>3 chofnod ôl-2010 yn Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys 2 gofnod arfordirol (Twyni Talacharn a Phen-bre) ac 1 cofnod yng Nghwm Cathan.<br>• **Tueddiadau:** Arferai fod yn eang ei wasgariad, ond mae'r niferoedd wedi gostwng yn aruthrol a'i chwmpas wedi cilio tua'r gogledd ledled y DU.<br>• **Bygythiadau:** dyma ffactorau allweddol sy'n gysylltiedig â'r gostyngiad mewn cacwn:<br>• Colli cynefinoedd llawn blodau, yn enwedig dolydd a phorfeydd blodau gwyllt.<br>• Newid yn yr Hinsawdd<br>• Plaladdwyr<br>• Clefydau<br>• Ynysu poblogaethau'n arwain at fewnfridio.<br>• Cystadleuaeth â gwenyn | addas. Mae'n rhywogaeth anodd ei hadnabod, felly gallai fod wedi'i thangofnodi yn y sir. Mae angen hyfforddiant penodol ar adnabod rhywogaethau.<br>• Sefydlu a chynnal cynefinoedd o ddolydd ac ymylon ffyrdd llawn blodau ar draws y dirwedd.<br>• Wedi'i chynnwys fel rhywogaeth darged ym mhrosiect Cysylltu Arfordir Sir Gaerfyrddin yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn a ddechreuwyd ym mis Mai 2023. |
| cacynen gynefinol<br>*Bombus ruderatus*<br><br>© Lawrence Harris | • **Cynefin cysylltiedig:** Glaswelltir a gweundir yr iseldir/arfordir sy'n llawn blodau.<br>Mae'r rhywogaeth hon yn debyg iawn i gacynen gyffredin yr ardd *(Bombus hortorum)*, ac mae arni angen ardaloedd agored o gynefin sy'n llawn blodau - er enghraifft dolydd blodau gwyllt. Fe'i cysylltir yn aml yn Lloegr â thir cynefinol fel lleiniau glas llysieuol.<br>• Statws: Y DU: Statws B nodedig (Falk 1991) (yn disgwyl adolygiad) IUCN: Pryder lleiaf.<br>• **Tueddiadau:** Wedi'i hailddarganfod mewn dau leoliad yn Sir Gaerfyrddin ym mis Mehefin 2022 ger Brechfa a Rhandir-mwyn. Cafwyd y cofnod diweddar cyn hynny yn 1973. Wedi prinhau'n sylweddol ledled y DU, a thybiwyd ei bod wedi diflannu o Gymru cyn iddi gael ei hailddarganfyddiad yn 2022. Erys rhai poblogaethau yng Nghaint a Swydd Gaergrawnt.<br>Gwelwyd rhai arwyddion o adferiad i'r rhywogaeth hon yn Ne-ddwyrain Lloegr yn dilyn camau gweithredu targededig dwys er ei chadwraeth.<br>• **Bygythiadau:** dyma ffactorau allweddol sy'n gysylltiedig â'r gostyngiad mewn cacwn:<br>• Colli cynefinoedd llawn blodau, yn enwedig dolydd a phorfeydd blodau gwyllt.<br>• Newid yn yr Hinsawdd<br>• Plaladdwyr<br>• Clefydau<br>• Ynysu poblogaethau'n arwain at fewnfridio.<br>• Cystadleuaeth â gwenyn | • Mae angen arolygon arbenigol i dargedu safleoedd lle gwyddys bod rhywogaethau i'w cael yn y gorffennol, a chynefinoedd eraill a allai fod yn addas. Mae'n rhywogaeth anodd ei hadnabod, felly gallai fod wedi'i thangofnodi yn y sir. Mae angen hyfforddiant penodol ar adnabod rhywogaethau.<br>• Sefydlu a chynnal cynefinoedd o ddolydd ac ymylon ffyrdd llawn blodau ar draws y dirwedd.<br>• Datblygu coridorau sy'n gyforiog o flodau i sicrhau y gall poblogaethau gysylltu.<br>• Wedi'i chynnwys fel rhywogaeth darged ym mhrosiect Cysylltu Arfordir Sir Gaerfyrddin yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn a ddechreuwyd ym mis Mai 2023. |
| 'Rhywogaethau o Bwysigrwydd Lleol' eraill â blaenoriaeth o ran cadwraeth yn Sir Gaerfyrddin | | |
| *Bombus monticola*<br>cacynen y llus | • **Cynefin cysylltiedig:** Ucheldir, Gweundir<br>Fe'i ceir fel arfer mewn ardaloedd mynyddig/gweundir uchel, dros 300m, ac mae'n ffafrio ardaloedd sy'n cynnwys clystyrau o blanhigion llus a grug.<br>Statws: Y DU: Heb ei rhestru (yn disgwyl adolygiad) IUCN: Pryder lleiaf<br>**Tueddiadau:** Cafwyd y cofnod diweddaraf ohoni yn | • Mae angen arolygon arbenigol i dargedu safleoedd lle gwyddys bod rhywogaethau i'w cael yn y gorffennol, a chynefinoedd eraill a allai fod yn addas.<br>• Atal cynefin ucheldirol rhag cael ei ddiraddio ymhellach, ee, drwy leihau |

| Rhywogaethau | Trosolwg o Sir Gaerfyrddin | Camau â blaenoriaeth a nodwyd yn Sir Gaerfyrddin |
|---|---|---|
| <br>© BBCT | 2023 ar Fynydd Llanllwni. Yn gymharol brin ledled y DU, gyda phoblogaethau sydd wedi'u cyfyngu i gynefin yr ucheldir dan fygythiad oherwydd y newid hinsawdd ac amaethu dwys.<br><br>Dangoswyd nad yw'r rhywogaeth hon o gacwn yn gallu goddef gwres i'r un graddau â rhywogaethau sy'n byw ar dir is. Yn y gorffennol roedd yn eang ei gwasgariad yng ngogledd a gorllewin Prydain, ond mae ei phoblogaeth wedi prinhau. Tybir bod prif achosion y gostyngiad hwn yn gysylltiedig â cholli a diraddio cynefinoedd, y mae'r naill a'r llall yn lleihau neu'n cael gwared â'r planhigion blodeuo y mae'n dibynnu arnynt (cyhoeddiadau Natural England; Mountain (Bilberry) Bumblebee, 2016).<br><br>• **Bygythiadau:** dyma ffactorau allweddol sy'n gysylltiedig â'r gostyngiad mewn cacwn:<br>• Colli cynefinoedd llawn blodau, yn enwedig dolydd a phorfeydd blodau gwyllt.<br>• Newid yn yr Hinsawdd<br>• Plaladdwyr<br>• Clefydau<br>• Ynysu poblogaethau'n arwain at fewnfridio.<br>• Cystadleuaeth â gwenyn | llosgi. |
| cacynen gwregys bylchog<br>*Bombus soroeensis*<br><br>© BBCT | • **Cynefin cysylltiedig:** Glaswelltir a gweundir yr iseldir; yr arfordir; yr ucheldir<br><br>Yn gysylltiedig â rhywogaethau sy'n blodeuo'n hwyr, fel tamaid y cythraul a phengaled. Yn fwy cyffredin yng ngogledd Lloegr a'r Alban.<br><br>• **Statws:** Heb ei rhestru yn y DU (yn disgwyl adolygiad) IUCN: Pryder lleiaf.<br><br>• **Tueddiadau:** Yn flaenorol nid oedd unrhyw gofnodion ar ôl 2010 yn Sir Gaerfyrddin, ond fe'i cofnodwyd yn 2022 ar safle ger Brechfa. Mae'r rhywogaeth hon wedi'i cholli neu'n prinhau ar lawer o safleoedd ledled Cymru a de Lloegr.<br><br>• **Bygythiadau:** dyma ffactorau allweddol sy'n gysylltiedig â'r gostyngiad mewn cacwn:<br>• Colli cynefinoedd llawn blodau, yn enwedig dolydd a phorfeydd blodau gwyllt.<br>• Newid yn yr Hinsawdd<br>• Plaladdwyr<br>• Clefydau<br>• Ynysu poblogaethau'n arwain at fewnfridio.<br>• Cystadleuaeth â gwenyn | • Mae angen arolygon arbenigol i dargedu safleoedd lle gwyddys bod rhywogaethau i'w cael yn y gorffennol, a chynefinoedd eraill a allai fod yn addas. Mae'n rhywogaeth anodd ei hadnabod, felly gallai fod wedi'i thangofnodi yn y sir. Mae angen hyfforddiant penodol ar adnabod rhywogaethau.<br><br>• Wedi'i chynnwys fel rhywogaeth darged ym mhrosiect Cysylltu Arfordir Sir Gaerfyrddin yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn a ddechreuwyd ym mis Mai 2023. |
| Rhywogaethau A7 heb eu cofnodi yn Sir Gaerfyrddin ond y mae'n ddigon posib y ceir hyd iddynt o gynnal arolwg | | |
| cardwenynen feinlais<br>*Bombus sylvarum*<br> | • **Cynefin cysylltiedig:** Glaswelltir yr iseldir a gweundir; yr arfordir, ffosydd draenio.<br><br>Wedi'i gwasgaru dros ardaloedd deheuol yn y gorffennol, dyma'r "fforiwr carreg drws", sy'n hoffi planhigion Fabaceae fel meillion.<br><br>• **Statws:** Y DU: B Nodedig (Falk 1991) (yn disgwyl adolygiad) IUCN: Pryder Lleiaf<br><br>• **Tueddiadau:** Yn prinhau'n gyflym ar draws yr holl DU. Bellach wedi'i chyfyngu i bum meta-boblogaeth, gyda 3 yn Ne Cymru (Maes Tanio Castellmartin, Gwastadeddau Gwent a GNG Cynffig.) Mae poblogaethau wedi'u hynysu bellach yn achosi mewnfridio gan gyflymu eu dirywiad. Dim cofnodion ar ôl 2010 yn Sir Gaerfyrddin. Un record ddiweddar ar arfordir Sir Benfro yn agos at y ffin â Sir Gaerfyrddin.<br><br>• **Bygythiadau:** dyma ffactorau allweddol sy'n gysylltiedig â'r gostyngiad mewn cacwn:<br>• Colli cynefinoedd llawn blodau, yn enwedig dolydd a | • Arolwg arbenigol mewn ardal o'r arfordir sydd agosaf at Sir Benfro, i gadarnhau a oes unrhyw wenyn yn bresennol, ac ystyried addasrwydd y cynefin.<br><br>• Wedi'i chynnwys fel rhywogaeth darged ym mhrosiect Cysylltu Arfordir Sir Gaerfyrddin yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn a ddechreuwyd ym mis Mai 2023. |

| Rhywogaethau | Trosolwg o Sir Gaerfyrddin | Camau â blaenoriaeth a nodwyd yn Sir Gaerfyrddin |
|---|---|---|
| | phorfeydd blodau gwyllt.<br>• Newid yn yr Hinsawdd<br>• Plaladdwyr<br>• Clefydau<br>• Ynysu poblogaethau'n arwain at fewnfridio.<br>• Cystadleuaeth â gwenyn | |